Funded by
UK Government
Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

# Y Gronfa Treftadaeth, Twristiaeth a Diwylliant 2026 - 2027

# Canllawiau

Sylwch, mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cefnogwyd gan
Supported by
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

**Cyflwyniad**
Mae cronfa Twristiaeth, Treftadaeth a Diwylliant wedi'i sefydlu i gefnogi twf economaidd cynaliadwy drwy gyflymu buddsoddiad mewn asedau twristiaeth, treftadaeth a diwylliannol o ansawdd uchel. Wedi'i ariannu ar y cyd gan Lywodraethau'r DU a Chymru, mae'r cynllun yn anelu at gryfhau gwydnwch, cynhyrchiant a thwf hirdymor y sector.

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid tan fis Mawrth 2027.

**Nod y Gronfa**

Nod y gronfa yw cefnogi creu, ehangu neu foderneiddio asedau twristiaeth, diwylliant neu dreftadaeth sy'n gallu cefnogi twf rhanbarthol.

Bydd y gronfa gyfalaf gwerth £1 miliwn yn buddsoddi mewn prosiectau ledled Sir Gaerfyrddin sy'n:

- Gwella ansawdd a hygyrchedd cyfleusterau diwylliant, treftadaeth a thwristiaeth
- Gwella profiad cyffredinol yr ymwelydd
- Denu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr
- Ymestyn y tymor twristiaeth

Rhaid i geisiadau fodloni o leiaf un o amcanion y gronfa.

**Lefelau'r grant**
Bydd cymorth ariannol ar gael drwy gynllun grant trydydd parti i gyflawni prosiectau Cyfalaf.

Mae'r trothwy grantiau rhwng £25,000 a £100,000:
- Yr uchafswm grant sydd ar gael ar gyfer prosiectau Cyfalaf - £100,000
- Nid oes angen arian cyfatebol; gellir ariannu hyd at 100% o gostau cymwys y prosiect.

Sylwch, bydd arian cyfatebol yn rhan o'r meini prawf asesu. Bydd ymgeiswyr sy'n cynnwys arian cyfatebol yn sgorio'n uwch, gan fod hyn yn cryfhau gwerth am arian a'r effaith gyffredinol o fewn rhaglen y Gronfa Twf Lleol.

**Sefydliadau Cymwys**
Mae'r gronfa ar gael i sefydliadau newydd neu bresennol sydd wedi'u lleoli yn Sir Gaerfyrddin neu sy'n bwriadu symud i Sir Gaerfyrddin. Sefydliadau cymwys:
- Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol â Chyfansoddiad
- Cyrff Cyhoeddus
- Elusennau Cofrestredig
- Sefydliadau di-elw
- Mentrau Cymdeithasol
- Gall canghennau lleol o sefydliadau trydydd sector cenedlaethol wneud cais gan ddefnyddio Cyfansoddiad y corff rhiant.
- Gall Cynghorau Tref a Chymuned wneud cais am brosiectau sy'n ychwanegol at gyfrifoldebau statudol arferol a fydd o fudd i'r gymuned.

**Sefydliadau Anghymwys**
- Unigolion preifat
- Busnesau preifat
- Gweithgarwch prosiect sy'n cael ei ddarparu er budd pobl y tu allan i Sir Gaerfyrddin yn unig

**Gweithgaredd cymwys**

Sylwch fod yn rhaid i bob prosiect sy'n ceisio cyllid o dan y Gronfa Treftadaeth, Twristiaeth a Diwylliant gael ei gyflawni erbyn 31 Mawrth 2027 fan bellaf.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos y mathau o brosiectau a allai fod yn gymwys. Sylwch nad yw hon yn rhestr gyflawn:

- Gwelliannau i gyfleusterau gyda'r nod o wella profiad cyffredinol ymwelwyr
- Adfer, gwella neu fywiogi asedau treftadaeth
- Datblygu llwybrau neu seilwaith twristiaeth ar raddfa fach
- Gwelliannau i gyfleusterau sy'n ymestyn y tymor
- Gwelliannau i hygyrchedd digidol ar gyfer cyfleusterau treftadaeth, twristiaeth neu ddiwylliant
- Gwelliannau dehongli ac ymgysylltu
- Seilwaith ymwelwyr hygyrch mewn safleoedd allweddol

**Costau prosiect cymwys:**

- Gwariant cyfalaf - mae hyn yn golygu prynu, adeiladu neu wella ased. Byddai hyn yn cynnwys:
    - costau adeiladu
    - offer a pheiriannau; a
    - gosodiadau, ffitiadau ac offer
- Gwasanaethau proffesiynol - ffioedd datblygu prosiectau, pensaer a syrfëwr meintiau lle mae cysylltiad uniongyrchol â'r prosiect cyfalaf
- Mae eitemau a brynwyd gyda chardiau credyd yn gymwys. Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu copi o'r gyfriflen cerdyn credyd fel rhan o'r broses hawlio.
- Lle nad yw sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, bydd y costau hyn yn gymwys fel rhan o'r grant. Lle bydd modd adennill TAW, bydd hyn yn cael ei ystyried yn anghymwys.

*** Cwblhewch a chyflwynwch y templed proffil ariannol a ddarperir.**

**Costau prosiect anghymwys:**

- Costau gweithredol/sefydliadol
- Gwaith lle nad yw deunyddiau na dyluniad yn briodol o fewn canllawiau'r gronfa.
- Ni ellir ystyried gwariant a wnaed cyn y Llythyr Cynnig; mae hyn hefyd yn cynnwys os llofnodwyd contractau neu os rhoddwyd gorchmynion.
- Yswirant
- Costau/offer atgyweirio a chynnal a chadw arferol.
- Gweithgareddau crefyddol (fodd bynnag, gwahoddir cynigion cyllido gan sefydliadau crefyddol).
- Ni fydd eitemau a brynir trwy brydlesu, hurbrynu, prydlesi cyllid/trefniadau credyd estynedig yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid grant.
- Efallai na fydd grant yn cael ei gynnig neu ei dalu os yw'r sefydliad neu'r ymgeisydd mewn ôl-ddyledion o ran unrhyw daliad i unrhyw un o'r awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan sy'n gweithredu'r cynllun.

**Allbynnau a Chanlyniadau'r Rhaglen:**
Rhaid i bob prosiect nodi pa rai o'r allbynnau a'r canlyniadau canlynol fydd yn cael eu cyflawni o ganlyniad i'r cyllid. Mae diffiniadau i'w gweld yn Atodiad A.

**Allbynnau**

- Nifer yr amwynderau neu gyfleusterau sydd wedi cael eu creu neu eu gwella
- Nifer y bobl sy'n cael eu cyrraedd
- Arian cyfatebol wedi'i ysgogi

**Canlyniadau**

- Mwy o ymwelwyr
- Nifer y swyddi llawn amser a ddiogelwyd

**Proses Gwneud Cais**
Gwahoddir ceisiadau trwy alwad agored. Gwahoddir ymgeiswyr i gyflwyno ceisiadau erbyn y dyddiadau cau canlynol:

- 17 Mehefin 2026 am hanner dydd

Ni fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser hwn yn cael eu derbyn.

Os ydych chi'n ystyried gwneud cais, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i'r Biwro trwy e-bostio biwro@sirgar.gov.uk

Rhaid gwneud pob cais drwy biwro@sirgar.gov.uk erbyn y dyddiad cau penodedig. Derbynnir llofnodion electronig.

Rhagwelir y bydd penderfyniadau am gyllid yn cael eu cadarnhau erbyn canol mis Awst 2026.

**Meini Prawf Cymhwysedd**
Rhaid i'r ymgeisydd fod yn sefydliad trydydd sector neu sector cyhoeddus.
Rhaid i bob prosiect ddangos aliniad clir ag un neu fwy o feysydd pwrpas y gronfa.
Rhaid dangos sut y bydd y themâu trawsbynciol yn cael sylw.
Rhaid bod modd cyflawni prosiectau erbyn 31 Mawrth 2027.

**Meini prawf sgorio**
Bydd ceisiadau'n cael eu hasesu a'u blaenoriaethu yn unol â'r meini prawf canlynol:

- Yn gallu dangos angen sydd wedi'i nodi a'i fynegi'n glir ac yn cyd-fynd ag un neu fwy o amcanion y gronfa.
- Cyflawnadwyedd (rhaid i'r prosiect fod yn gyflawnadwy erbyn 31 Mawrth 2027)
- Gwerth am arian
- Yn gynaliadwy y tu hwnt i oes y grant
- Arian cyfatebol wedi'i sicrhau
- Yn dangos effaith ranbarthol

Mae sgôr asesu i'w gweld yn Atodiad B.

Bydd pob cais yn cael ei ystyried gan Banel Cyllido a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth o Gyngor Sir Caerfyrddin a Phartneriaeth Adfywio Sir Gaerfyrddin.

Bydd argymhellion yn cael eu hystyried drwy brotocolau penderfyniadau Cyngor Sir Caerfyrddin er mwyn gwneud penderfyniad terfynol.

**Themâu Trawsbynciol**
Bydd yn ofynnol i bob gweithgaredd ddangos sut y bydd yn bodloni'r themâu trawsbynciol canlynol:

**Dulliau cynaliadwy a charbon isel o gyflawni**
Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i fod yn garbon sero net erbyn 2030 ac mae'n awyddus i hyrwyddo arferion busnes cynaliadwy drwy ei raglenni cyllido. Fel rhan o'r cais, gofynnir i chi sut mae eich sefydliad yn dangos ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. Dyma rai meysydd i'w hystyried:

- Caffael nwyddau a gwasanaethau gan gyflenwyr lleol
- Defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a hyrwyddo teithio llesol
- Ailgylchu, ailddefnyddio ac ailbwrpasu
- Ystyried defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy
- Gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynni e.e., bylbiau golau LED.
- Gweithio'n ddi-bapur lle bo modd
- Hyrwyddo arferion gwyrdd drwy ymgysylltu â'r cyhoedd
- Mynd ati i ddefnyddio llai o ynni

**Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**
Mae gan Gyngor Sir Caerfyrddin ddyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau wrth gyflawni ei swyddogaethau, gan gynnwys dyfarnu cyllid grant.

Felly, gofynnir i ymgeiswyr ystyried effaith eu prosiect ar yr amgylchedd a dangos sut y bydd niwed posibl i fioamrywiaeth yn cael ei osgoi neu ei leihau. Lle bo'n briodol, anogir prosiectau i nodi cyfleoedd i gyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol, megis planhigion sy'n denu pryfed peillio, diogelu cynefinoedd presennol, draenio cynaliadwy, neu atebion seiliedig ar natur.

Dylai lefel y manylder a ddisgwylir fod yn gymesur â maint a natur y prosiect. Dylai prosiectau nad ydynt yn cael unrhyw effaith ar yr amgylchedd naturiol esbonio hyn yn fyr.

**Yr Iaith Gymraeg**
Mae Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg yn gosod gofyniad statudol ar y Cyngor i sicrhau bod y grantiau y mae'n eu rhoi yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Er mwyn bodloni'r gofynion hyn rhaid i chi wneud pob ymdrech i wneud y canlynol:
- Gweithredu'n ddwyieithog yn gyhoeddus, gan roi presenoldeb a statws gweledol uchel i'r Gymraeg ar bob cyfle (deunyddiau hyrwyddo, postiadau, datganiadau i'r wasg)
- Cyfathrebu'n ddwyieithog â'r cyhoedd (e-bost, datganiadau i'r wasg, llythyrau, galwadau ffôn)
- Cydweithio â phartneriaid sy'n hybu'r Gymraeg (Mentrau Iaith, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Meithrin, Cymraeg i Blant, ysgolion cyfrwng Cymraeg, Cymraeg i Oedolion, capeli, corau, papurau newydd lleol, fforymau a rhwydweithiau sy'n hybu'r Gymraeg)
- Sicrhau bod gweithlu â sgiliau Cymraeg, neu drefniadau eraill ar waith, a fydd yn galluogi gweithgaredd yn unol â'r Safonau.
- Darparu gwasanaethau wyneb yn wyneb neu ar-lein yn Gymraeg
- Dangos ystyriaeth o natur ieithyddol yr ardal ddaearyddol y bwriedir gwasanaethu ynddi, a sut mae'r gwaith yn mynd i gael effaith gadarnhaol ar nifer y siaradwyr Cymraeg neu'r defnydd o'r Gymraeg*

*Mae hyn yn golygu bod gan yr ymgeisydd wybodaeth am gymunedau'r siaradwyr Cymraeg y gallai'r ddarpariaeth effeithio arnynt; yn gadarnhaol neu'n negyddol. Bydd angen i'r ymgeisydd fod yn ymwybodol o gyfleoedd i gynyddu gwelededd y Gymraeg a hyrwyddo defnydd pawb o'r Gymraeg; yn siaradwyr hyderus yn ogystal â'r rhai sy'n medru ond ychydig o'r Gymraeg.

Ceir canllawiau pellach yn **Atodiad C.**

**Gwasanaethau hygyrch digidol**
Isod, amlinellir camau gweithredu posibl i sefydliadau eu hystyried wrth ddatblygu a chyflawni eu prosiectau:
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'ch prosiect yn ddigidol: yn ogystal â dulliau cyhoeddusrwydd traddodiadol seiliedig ar bapur, ceisiwch ddefnyddio ystod o wahanol lwyfannau cyfryngau cymdeithasol; gwefan neu flog prosiect. Crëwch gynnwys digidol fel fideos a phodlediadau y gellir eu rhannu â'r gymuned.
- Cynnal cyfarfodydd hybrid – gan ganiatáu i'r gymuned fynychu cyfarfod naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein trwy dechnolegau fel Microsoft Teams a Zoom.
- Defnyddio arolygon ar-lein (e.e. SurveyMonkey neu Microsoft Forms) i ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned. Gellir eu defnyddio hefyd i werthuso effaith prosiect.
- Ystyried penodi tîm o hyrwyddwyr digidol i gefnogi'r prosiect i wneud yn fawr o fanteision technolegau digidol.
- Annog mwy o ddefnyddwyr yn y gymuned i ymgysylltu â thechnolegau digidol.
- Ymgysylltu â Cyflymu Cymru i Fusnesau neu Cymunedau Digidol Cymru i gael rhagor o syniadau a chyngor ar wella'ch cynnwys a'ch sgiliau digidol.
- Er gwybodaeth - Pecyn Cymorth Digidol i Fusnesau (llyw.cymru)

**Sicrhau Cyfle Cyfartal**
Mae cydraddoldeb yn derm syml ar gyfer yr holl waith a wneir gan sefydliad i hyrwyddo cyfle cyfartal a herio gwahaniaethu, mewn cyflogaeth ac wrth gyflawni ei waith a darparu gwasanaethau.

Drwy roi cydraddoldeb wrth wraidd cynllunio a gweithredu prosiectau, mae sefydliadau yn fwy tebygol o gyflawni canlyniadau gwell.

**Caffael**
**Prynu nwyddau, gwasanaethau neu waith**
Mae disgwyl i ymgeiswyr, wrth gaffael gwaith, nwyddau a gwasanaethau, gynnal y broses honno mewn modd sy'n sicrhau ei bod yn agored, yn rhoi gwerth am arian ac yn deg. Rhaid iddynt ddilyn y gweithdrefnau caffael fel y maent wedi'u hamlinellu yn yr adran hon.

**Trothwyon Caffael**
Bydd yr union weithdrefnau sydd i'w dilyn yn dibynnu ar faint yr archeb neu'r contract i'w gosod/osod. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC) yn gweithredu cyfres raddedig o weithdrefnau sy'n cydnabod yr angen am ysgafnhau gofynion gweinyddol ar gyfer contractau sy'n ymwneud â symiau llai. Rhaid i bob ymgeisydd gadw at y rheolau a nodir yn Atodiad D.

Mae'n ofynnol i gyrff sector cyhoeddus sy'n dod o dan Gyfarwyddebau Caffael y Comisiwn Ewropeaidd ddilyn eu rheolau a'u gweithdrefnau caffael sefydliadol eu hunain.

Bydd methu â chydymffurfio'n llawn â'r trothwyon caffael yn golygu nad yw'r costau'n gymwys i gael cymorth o dan y gronfa hon.

**Rheoli Cymorthdaliadau**
Mae'r Gronfa Treftadaeth, Twristiaeth a Diwylliant yn cael ei gweithredu o dan Reolau Cymhorthdal y DU - https://www.gov.uk/government/collections/subsidy-control-regime

**Amodau Cyffredinol**
Prosiectau Cyfalaf - bydd y grant yn cael ei adennill os bydd y sefydliad yn rhoi'r gorau i fasnachu, yn adleoli neu'n gwerthu'r eiddo ymlaen o fewn 5 mlynedd i'w ddyfarnu.

Ar gyfer eiddo a godwyd neu a wellwyd yn rhan o gynllun grant a weinyddwyd gan CSC, bydd yr Awdurdod yn ceisio cofrestru buddiant yn yr eiddo a ariannwyd trwy grant gyda'r Gofrestrfa Tir trwy Gyfyngiad neu Bridiant Cyfreithiol fel a ganlyn:

- Dyfarniadau grant o dan £25k – Dim cyfyngiad
- Dylid gosod cyfyngiadau gyda'r Gofrestrfa Tir ar gyfer prosiectau neu gynlluniau sy'n derbyn grantiau rhwng £25,001 a £50,000 yn uniongyrchol gan neu drwy'r awdurdod ar gyfer y cyfnod sy'n berthnasol i'r rhaglen ariannu y telir y grant ar ei chyfer.
- Rhaid gosod Cyfyngiad neu Bridiant Cyfreithiol gyda'r Gofrestrfa Tir ar gyfer prosiectau neu gynlluniau sy'n derbyn grantiau o £50,001 a mwy ar gyfer y cyfnod sy'n berthnasol i'r rhaglen ariannu y telir y grant ar ei chyfer.

Bydd y broses hon yn rhybuddio'r Awdurdod am unrhyw newid ym mherchnogaeth yr eiddo ac unrhyw effaith bosibl ar y telerau ac amodau a bennwyd wrth ddyfarnu'r grant. Bydd y sawl sy'n derbyn y grant yn gyfrifol am gymryd camau i godi unrhyw Gyfyngiad neu Bridiant Cyfreithiol ac unrhyw gostau sydd ynghlwm â'r broses, ar ddiwedd y cyfnod.

Argymhellir yn gryf fod unrhyw nwyddau a brynir mewn perthynas â'r grant yn cael eu prynu drwy ddefnyddio cyfrif banc y busnes.

Os yw'r gwariant ar waith cymwys yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y cynnig grant, bydd y grant yn cael ei leihau ar sail pro rata.

Bydd grantiau'n cael eu talu yn ôl-weithredol, a hynny ar ôl cyflwyno tystiolaeth o wariant a chanlyniadau prosiectau ar ffurf anfonebau gwreiddiol a dalwyd a chyfriflenni banc perthnasol sy'n dangos gwariant y prosiect. Efallai y bydd gan sefydliadau dielw a gwirfoddol hawl i hawlio taliadau grant yn fisol, yn ddeufisol

neu'n chwarterol ymlaen llaw i gynorthwyo gyda llif arian. Lle bo'n berthnasol, rhaid i ymgeiswyr gyflwyno achos i'r Cyngor Sir am gael cymeradwyaeth i dderbyn blaendaliadau.
Rhaid i'r ymgeisydd dderbyn telerau ac amodau'r grant drwy lenwi'r Cytundeb Cyllido cyn pen 30 diwrnod ar ôl ei dderbyn. Rhaid cwblhau'r holl wariant sy'n gysylltiedig â'r grant yn unol â'r dyddiadau dechrau a gorffen ar y Cytundeb Cyllido a'r gwariant cymeradwy.

At bob diben grant bydd yr hawliad a'r dystiolaeth yn cael eu monitro gan roi rhybudd ymlaen llaw 1, 3 a 5 mlynedd ar ôl dyddiad dyfarnu'r grant.

Os na fydd y prosiect yn mynd rhagddo cyn pen y cyfnod a nodwyd yn y llythyr cynnig grant, bydd y cynnig grant yn darfod ohono'i hun. Gellir ymestyn y cyfnod cynnig grant, ar yr amod bod cais ysgrifenedig yn cael ei wneud. Rhaid gwneud cais am unrhyw newid o ran y Telerau a'r Amodau a amlinellir yn y Llythyr Cynnig a chytuno arno.

Ni ystyrir talu grant am eitemau a brynir ag arian parod.

Mae’n bosibl y bydd swyddogion yr awdurdod yn cynnal ymweliadau safle cyn i unrhyw arian grant gael ei dalu.

**Cyhoeddusrwydd**
Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus ddangos cefnogaeth gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Twf Lleol Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys unrhyw gyhoeddusrwydd mewn perthynas â'r prosiect a ariennir.

Darperir placiau ar gyfer prosiectau cyfalaf i alluogi ymgeiswyr i ddangos cydnabyddiaeth o'r cymorth a ddarperir.

**Adennill cyllid grant**
Bydd y cyllid yn cael ei gadw'n ôl a/neu, o ran taliad sydd wedi cael ei wneud, bydd derbynnydd y grant yn ad-dalu'r cyllid naill ai'n llawn neu'n rhannol, gan gynnwys:

a) os oes gormod o gyllid wedi'i dalu
b) yn ystod ei oes economaidd, os yw'r prosiect yn newid yn sylweddol a'i fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion gwahanol i'r rheiny a nodwyd yn y cais, neu, bod y perchennog yn newid ac nad yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei hysbysu am hynny.

Oes economaidd yw'r cyfnod hyd at **5 mlynedd** ar ôl dyddiad y taliad grant terfynol a bydd angen ad-dalu'r cyllid fel a ganlyn:

| **Dyddiad gwaredu'r ased(au)** | **Swm i'w ad-dalu** |
|---|---|
| O fewn blwyddyn | Cyllid i'w ad-dalu'n llawn |
| O fewn 2 flynedd | 80% o'r cyllid i'w ad-dalu |
| O fewn 3 blynedd | 60% o'r cyllid i'w ad-dalu |
| O fewn 4 blynedd | 40% o'r cyllid i'w ad-dalu |
| O fewn 5 mlynedd | 20% o'r cyllid i'w ad-dalu |
| Ar ôl 5 mlynedd | Dim cyllid i'w ad-dalu |

Yr uchod yw'r isafswm y mae'n rhaid ei ad-dalu. Mae'n rhaid ad-dalu'r grant yn llawn ar orchymyn:

- os canfyddir bod yr ymgeisydd wedi camliwio mewn perthynas â'r cais
- os yw'r ymgeisydd wedi torri amod uchod
- os nad yw'r asedau a'r eiddo (os yw'n berthnasol) yn cael eu hadfer yn llawn cyn pen 12 mis ar ôl unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at golled neu ddifrod i'r eiddo


**Cysylltwch â:**
**Y Gronfa Treftadaeth, Twristiaeth a Diwylliant**
Neuadd y Sir,
Caerfyrddin,
Sir Gaerfyrddin.
SA31 1JP.
Ffôn: 01269 590216
E-bost: biwro@sirgar.gov.uk

**Atodiad A – Allbynnau a Chanlyniadau'r Rhaglen**

| Allbwn | Diffiniad | Tystiolaeth Archwilio |
|---|---|---|
| **Nifer yr amwynderau neu gyfleusterau sydd wedi cael eu creu neu eu gwella** | Nifer yr amwynderau/cyfleusterau newydd sydd wedi cael eu creu neu eu gwella.<br>- Mae amwynder/cyfleuster yn golygu unrhyw wasanaeth a gynhwysir y tu mewn i strwythur ffisegol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i lysoedd ynadon, gorsafoedd heddlu, neuaddau tref, cyfleusterau chwaraeon, ysbytai a thoiledau cyhoeddus.<br>- Mae creu yn golygu nad oedd yr amwynder/cyfleuster yn bodoli o'r blaen.<br>- Mae gwella yn golygu ychwanegu, adnewyddu neu atgyweirio cyfleusterau gyda'r nod o greu mannau cyhoeddus gwell. Nid yw'n cynnwys cynnal a chadw cyfleusterau presennol. | • Tystysgrif cwblhau'r gwaith yn ymarferol e.e. Ardystiad mesur meintiau o'r gwaith a wnaed<br>• Ffotograffau cyn ac ar ôl cwblhau'r cynllun |
| **Nifer y bobl sy'n cael eu cyrraedd** | Nifer y bobl yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan ymyriad drwy'r Gronfa Twf Lleol.<br>Bydd y diffiniad o effaith uniongyrchol yn amrywio ar draws ymyriadau e.e.:<br><br>- Gwelliannau effeithlonrwydd ynni - y rhai sy'n byw neu'n gweithio o fewn y safle a drinnir.<br><br>- Cynlluniau ymgysylltu - y rhai sy'n ymgysylltu'n uniongyrchol (e.e., darllen, gwylio, mynychu).<br><br>- Dylid ond cofnodi effaith uniongyrchol lle gellir gwneud hynny'n gadarn. | • Nifer y bobl sy'n cael eu cyrraedd<br>A<br>Manylion yr effaith uniongyrchol.<br>• Gallai tystiolaeth gynnwys nifer y dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, nifer sy'n hoffi postiadau a lefel yr ymgysylltu.<br>• Nifer y cylchgronau a werthwyd |
| **Canlyniad** | **Diffiniad** | **Tystiolaeth Archwilio** |
| **Nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn a ddiogelwyd** | Mae swydd sydd wedi'i diogelu yn swydd barhaol â thâl a oedd mewn perygl cyn i gymorth gael ei ddarparu, ac yr oedd y cymorth wedi helpu'r busnes i'w chadw. Mae hyn yn cynnwys unig fasnachwyr a pherchnogion busnes. Mae hyn yn cynnwys swyddi amser llawn a rhan-amser, y dylid eu cofnodi mewn perthynas â chyfwerth ag amser llawn).<br><br>- Nid yw swyddi wedi'u diogelu yn cynnwys y rheiny wedi'u creu i gyflawni'r ymyriad (e.e. adeiladu, staff cyflenwi a staff gweinyddol).<br>- Dylai cyfwerth ag amser llawn (CALL) fod yn seiliedig ar oriau amser llawn safonol y cyflogwr.<br>- Diffinnir 'mewn perygl' fel rhai y rhagwelir y cânt eu colli o fewn 6 mis.<br>- Cyfrwch bob CALL neu swydd unigol unwaith yn unig drwy oes prosiect (h.y. ni ddylid ei chyfrif bob blwyddyn)<br>- Mesur o oriau gweithio gweithwyr mewn perthynas ag oriau cyflogwr am wythnos waith amser llawn yw CALL | • Cyflogwr i ddarparu datganiad bod y swydd mewn perygl yn ystod y chwe mis nesaf - a sut mae'n gysylltiedig â'r ymyrraeth<br>A<br>Chopi o'r contract wedi'i lofnodi - nodwch y teitl swydd a nifer yr oriau yr wythnos |
| **Mwy o ymwelwyr** | Y cynnydd yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal leol, gan gynnwys marchnadoedd, canol y dref, atyniadau twristiaid, mannau gwyrdd a glas a lleoliadau diwylliannol a threftadaeth.<br>Dylai'r cyfrif presenoldeb fod yn seiliedig ar ffigurau tocynnau / mynediad, lle bo'n berthnasol. Dylai'r sampl o leoliadau sy'n cael eu holrhain aros yr un peth dros amser, | • Tystiolaeth o docynnau, NEU rifau mynediad i'r lleoliad NEU Fonitro / arolygon ymwelwyr |

| | | |
|---|---|---|
| | oni bai bod lleoliadau newydd eu sefydlu yn cael eu creu yn ystod y cyfnod adrodd y gellir eu cynnwys. | d.s Bydd angen i brosiectau ganfod data sylfaenol i bennu'r nifer cynyddol |

**Diogelu Data**
Rydym yn casglu ac yn defnyddio ystod eang o wybodaeth am wahanol bobl er mwyn darparu ein gwasanaethau. Mae'r unigolion hyn yn cynnwys ein cwsmeriaid, ein cleientiaid a'n gweithwyr a'u data personol nhw yw'r wybodaeth rydym ni'n ei chadw amdanynt Mae bron popeth a wnawn fel Cyngor yn cynnwys prosesu data personol, fel enwau, cyfeiriadau neu rifau cyfeirnod.

Mae Diogelu Data yn ymwneud â sicrhau y gall pobl ymddiried yn y Cyngor i ddefnyddio eu data personol yn deg ac yn gyfrifol. Mae hefyd yn golygu bod yn rhaid i ni gydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data benodol.

Nod Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) yw diogelu data personol ac mae'n rhoi nifer o hawliau i unigolion mewn perthynas â'u gwybodaeth. Fel gweithwyr y Cyngor, mae'n rhaid i bob un o'n staff gydymffurfio â GDPR y DU.

Os hoffech wybod rhagor am sut yr ydym yn defnyddio eich gwybodaeth, ffoniwch 01267 234567 i gael copi o'n Hysbysiad Preifatrwydd, neu ewch i'n gwefan www.sirgar.llyw.cymru

**Atodiad B**
**Meini Prawf Asesu Cais**

Bydd pob cais yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf sgoriau wedi'u pwysoli canlynol. Bydd pob maen prawf yn cael ei sgorio o 0-10. Uchafswm sgôr - 100.

<table>
<tr><th>Meini Prawf Dethol</th><th>Sgôr</th><th>Pwysoliad</th></tr>
<tr><td>Gallu dangos angen sydd wedi'i nodi a'i fynegi'n glir sy'n dangos aliniad clir ag un neu fwy o feysydd pwrpas y gronfa.</td><td>10</td><td>x 2 (20)</td></tr>
<tr><td>Cyflawnodd (rhaid i'r prosiect fod yn gyflawn erbyn Mawrth 31ain 2027)</td><td>10</td><td>x 2 (20)</td></tr>
<tr><td>Gwerth am Arian</td><td>10</td><td>x 2 (20)</td></tr>
<tr><td>Dangos sut y bydd y prosiect yn gynaliadwy y tu hwnt i oes y grant</td><td>10</td><td>x 2 (20)</td></tr>
<tr><td>Arian cyfatebol wedi'i sicrhau</td><td>10</td><td>x 0.5 (5)</td></tr>
<tr><td>Yn dangos effaith ranbarthol</td><td>10</td><td>x 1.5 (15)</td></tr>
<tr><th>Disgrifiad o'r Ymateb</th><th colspan="2">Sgôr</th></tr>
<tr><td>Cyflwyniad Perffaith sy'n Cydymffurfio'n Llawn – mae'r ymateb yn fanwl iawn ac yn rhoi hyder yng ngallu'r ymgeisydd i gyflawni'r holl ofynion</td><td colspan="2">10</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad Rhagorol – mae'r ymateb yn fanwl ac yn rhoi hyder yng ngallu'r ymgeisydd i gyflawni'r gofynion</td><td colspan="2">9</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad Da Iawn – ymateb manwl credadwy ac argyhoeddiadol i'r gofynion</td><td colspan="2">8</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad Da – ymateb credadwy i'r gofyniad</td><td colspan="2">7</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad Boddhaol – ymateb digonol i ofynion ac amcanion y rhaglen</td><td colspan="2">6</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad Gweddol – yn mynd i'r afael â rhai o'r gofynion ond yn brin o fanylion mewn mannau</td><td colspan="2">5</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad Derbyniol – nid yw'r ymateb yn bodloni'r gofynion ac mae wedi'i egluro'n wael ond nid yn ddigon gwael i'w wrthod.</td><td colspan="2">4</td></tr>
<tr><td colspan="3">OS NA ALLWCH FODLONI'R SAFON OFYNNOL <u>AR GYFER UNRHYW GWESTIWN</u> CAIFF EICH CYFLWYNIAD EI EITHRIO O'R BROSES WERTHUSO</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad Gwan – methu â bodloni'r rhan fwyaf o'r gofynion ac wedi'i egluro'n wan, neu ddim o gwbl. Bodloni'r gofynion i raddau cyfyngedig yn unig.</td><td colspan="2">3</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad Gwael – prin yn bodloni'r gofynion ac yn codi amheuon ynglŷn â'r gallu i ddatblygu prosiect derbyniol a buddiol.</td><td colspan="2">2</td></tr>
<tr><td>Cyflwyniad Annerbyniol (Materion mawr) – naill ai'n methu'n llwyr â bodloni'r meini prawf neu'n methu â dangos unrhyw ddealltwriaeth/profiad/hygrededd mewn perthynas ag amcanion y rhaglen.</td><td colspan="2">1</td></tr>
<tr><td>Ymateb heb ei lenwi, neu ymateb sy'n gwbl annerbyniol ac nad yw'n cyflawni'r gofyniad mewn unrhyw ffordd.</td><td colspan="2">0</td></tr>
</table>

**Atodiad C**

**Enghreifftiau o'r ddarpariaeth yn unol â Safonau'r Gymraeg**:

Yn y tabl isod ceir rhestr o enghreifftiau o ymrwymiadau y gallai'r ymgeisydd eu gwneud er mwyn cydymffurfio â'r Safonau. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ond yn hytrach mae'n cynnig awgrymiadau, a gall yr ymgeisydd awgrymu ymrwymiadau eraill. Bydd disgwyl iddynt ystyried perthnasedd yr isod i'r gwaith maent am ei gyflawni drwy'r grant ac ymrwymo i gymaint â phosibl yn unol â maint trosiant y sefydliad, a maint y cais am gyllid. Cofiwch fodd bynnag fod disgwyl i unrhyw fudiad sy'n cyflogi mwy na 50 aelod wneud ymrwymiad sylweddol i'r Gymraeg, gan anelu at gyflawni'r hyn sydd ar y rhestr isod. Bydd pob sefyllfa'n cael ei hystyried yn unigol, a bydd cyngor a chymorth ar gael i ymgeiswyr.

Gellir defnyddio'r isod wrth ymateb i gwestiynau'r Gymraeg yn themâu Trawsbynciol Adran 9.

**Y Sefydliad**

| |
|---|
| Byddwn ni'n mapio gallu presennol y sefydliad i ddarparu yn Gymraeg |
| Byddwn ni'n ymdrechu i gynyddu gallu'r sefydliad i ddarparu yn y Gymraeg naill ai drwy gyflogi staff â sgiliau yn y Gymraeg, drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr â sgiliau Cymraeg neu drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliad arall a all ddarparu yn Gymraeg. |
| Byddwn ni'n sicrhau bod gennym drefniadau ar waith i ddarparu deunyddiau yn y Gymraeg |
| Byddwn ni'n ystyried darpariaeth Gymraeg o'r cychwyn cyntaf, wrth gynllunio'r ddarpariaeth |
| Mae gennym Bolisi neu Gynllun Gweithredu Cymraeg sy'n amlinellu ein hymrwymiad i'r Gymraeg ym mhopeth a wnawn |
| Rydym yn fudiad cyfrwng Cymraeg sy'n gweinyddu a chyflawni trwy gyfrwng y Gymraeg |

**Cyhoeddusrwydd**

| |
|---|
| Byddwn ni'n cyhoeddi'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd yn y Gymraeg, yn electronig ac ar bapur. Byddwn ni'n sicrhau bod y deunyddiau hyrwyddol Cymraeg yn mynd allan yr un pryd â'r Saesneg, i'r un safon a gyda'r Gymraeg mewn man lle caiff ei darllen gyntaf |
| Byddwn ni'n hyrwyddo ein darpariaeth / gwasanaeth i gynulleidfa Gymraeg gan nodi'n glir bod darpariaeth Gymraeg neu ddwyieithog ar gael |
| Byddwn ni'n annog siaradwyr Cymraeg i gymryd rhan / defnyddio ein gwasanaeth / prosiect drwy gyfrwng y Gymraeg |
| Byddwn ni'n hybu'r Gymraeg ym mhob gweithgaredd |
| Bydd siaradwyr Cymraeg ein sefydliad yn gwisgo bathodynnau sy'n nodi eu bod yn gallu Siarad Cymraeg ac yn annog Pobl i siarad Cymraeg |
| Byddwn ni'n creu hunaniaeth Gymraeg neu ddwyieithog ar gyfer fy mhrosiect / gwasanaeth. |
| |

**Ymgysylltu â'r cyhoedd**

| |
|---|
| Byddwn yn cyfleu negeseuon cyffredinol gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog |
| Byddwn ni'n cynnig cyfathrebu'n Gymraeg gydag unigolion a chyfathrebu gyda nhw wedyn yn yr iaith sydd ei hangen arnynt |
| Byddwn ni'n darparu ein gweithgarwch yn Gymraeg |
| Byddwn ni'n darparu ein gweithgarwch yn ddwyieithog, gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin mor ffafriol â'r Saesneg |
| “Os na ellir darparu elfen o’r Gweithgaredd yn Gymraeg oherwydd diffyg personél, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â’r Saesneg, gan ddefnyddio hwyluswyr Cymraeg neu wasanaeth cyfieithu ar y pryd, er enghraifft, neu drwy weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. |

| |
|---|
| Byddwn ni'n hyrwyddo elfennau Cymraeg ein darpariaeth |

**Sicrhau effaith gadarnhaol ar y Gymraeg**

| |
|---|
| Mae gennym ddealltwriaeth o sefyllfa ieithyddol y sir ac rydym yn deall yr angen i hyrwyddo'r iaith Gymraeg |
| Byddwn ni'n cynnig darpariaeth Gymraeg yn hytrach nag aros i rywun ofyn am hynny |
| Byddwn yn ymgysylltu â chymunedau Cymraeg eu hiaith (daearyddol neu fel arall) |
| Byddwn ni'n sicrhau nad yw ein darpariaeth yn cael effaith negyddol ar ddefnydd cyffredinol y Gymraeg yn y sir, gan gynnwys sicrhau nad yw ein darpariaeth yn annog siaradwyr Cymraeg i ymgysylltu â'i gilydd yn Saesneg oherwydd ein darpariaeth |
| Byddwn ni'n sicrhau defnydd o'r Gymraeg yn ein holl ddarpariaeth gan gynnwys y rheiny sy'n llai rhugl |
| Bydd ein gweithgarwch yn gyfle i bobl ddefnyddio eu Cymraeg neu ddatblygu eu sgiliau Cymraeg |
| Byddwn yn cydweithio â phartneriaid sy'n hybu'r Gymraeg (Mentrau Iaith, yr Urdd, Ffermwyr Ifanc, Meithrin, Cymraeg i Blant, ysgolion cyfrwng Cymraeg, Cymraeg i Oedolion, capeli, corau, papurau newydd lleol, fforymau a rhwydweithiau sy'n hybu'r Gymraeg) |
| |

| Atodiad D - Rheolau ynghylch Caffael Grantiau gan Drydydd Parti (Chwefror 2025) | | |
|---|---|---|
| **Gofyniad** | **Gwerth<br>Mae'r holl werthoedd i'w dehongli fel rhai sy'n cynnwys TAW.** | **Y Broses Gaffael** |
| **Pawb** | **£0 i £9,999** | • Mae'n rhaid cael a chadw o leiaf **1 Dyfynbris ysgrifenedig**, a'i gyflwyno i'r swyddogion prosiect.<br><br>• Mae'n rhaid cael y gwerth gorau am arian ac mae'n rhaid cymryd gofal rhesymol i gael nwyddau, gwaith neu wasanaethau o ansawdd digonol am bris cystadleuol. Mae'n rhaid cadw cofnod dogfennol i gefnogi'r penderfyniad at ddibenion archwilio<br><br>• Sylwch **nad** yw'r anfoneb am nwyddau/gwasanaethau/gwaith a dderbyniwyd **yn dderbyniol** a bod angen darparu **dyfynbris** gan y cyflenwr i ddangos bod yr ymgeisydd wedi sicrhau gwerth am arian.<br><br>• Lle mae nwyddau traul yn cael eu caffael o dan £500, gellir ystyried hyn fel eithriad i'r rheolau hyn, ac ni fydd angen cael dyfynbris ar gyfer yr eitem hon/eitemau hyn. Sylwch fod yn rhaid i chi gyflwyno cais ysgrifenedig i'ch rheolwr prosiect cyn prynu'r nwyddau er mwyn i hyn gael ei gymeradwyo. |
| **Pawb** | **£10,000 a £74,999** | • ***<u>Rhaid</u>*** ceisio o leiaf **3 dyfynbris ysgrifenedig** o ffynonellau cystadleuol.<br><br>• Mae'n rhaid i'r dyfynbrisiau fod yn seiliedig ar yr un fanyleb, ac mae'n rhaid rhoi dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y dyfynbris. Mae'n rhaid gwerthuso'r holl ddyfynbrisiau ar sail 'tebyg am debyg'.<br><br>• Mae'n rhaid cadw cofnod dogfennol o'r dyfynbrisiau a geisiwyd, y broses werthuso a'r penderfyniad dyfarnu at ddibenion archwilio.<br><br>Os mai dim ond un dyfynbris sy'n dod i law, mae'n **<u>rhaid</u>** i chi gysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd gennych. Bydd y penderfyniad i symud ymlaen i brynu yn cael ei gymeradwyo gan Gyngor Sir Caerfyrddin, fesul achos. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un dyfynbris, efallai y bydd yn ofynnol hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru |

| | | |
|---|---|---|
| **Nwyddau a Gwasanaeth au** | **£75,000 a £214,904**[1] | • Rhaid ceisio o leiaf **4 tendr** o ffynonellau cystadleuol, gydag **isafswm o 2 dendr yn dod i law.**<br><br>• Mae'n rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro: yr un fanyleb a'r un gofynion amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso y bydd y tendr yn cael ei werthuso yn eu herbyn a'r un dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau, ac ar ôl hynny ni dderbynnir unrhyw dendrau.<br><br>• Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol a rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i werthuso tendrau.<br><br>Os mai dim ond un tendr sy'n dod i law, mae'n **rhaid** i chi gysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC), i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd. Bydd yn rhaid i'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu gael ei gymeradwyo gan CSC, fesul achos. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, efallai y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru. |
| **Gwaith** | **£75,000 a £5,372,609**[2] | • Rhaid ceisio o leiaf **4 tendr** o ffynonellau cystadleuol, gydag **isafswm o 3 thendr yn dod i law**<br><br>• Mae'n rhaid rhoi'r un wybodaeth i bawb sy'n tendro: yr un fanyleb o'r gofynion, amlinelliad o'r meini prawf gwerthuso a ddefnyddir wrth ddyfarnu'r contract a'r un dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau, gydag ymrwymiad i beidio â derbyn tendrau ar ôl hynny.<br><br>• Mae'n rhaid i'r broses werthuso a ddefnyddir gyd-fynd â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd yn wreiddiol a rhaid llunio adroddiad gwerthuso sy'n nodi ar ba sail y dyfarnwyd y tendr llwyddiannus. Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i werthuso tendrau.<br><br>• Sylwch, ar gyfer cynlluniau grant penodol sy'n ymwneud â phrosiectau gwaith cyfalaf, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau'r corff cyllido gan ei bod yn bosibl bod gofynion a phrosesau penodol y mae'n rhaid eu dilyn. **Gwnewch yn siŵr eich bod wedi trafod hyn gyda'ch Rheolwr/Swyddog Prosiect.**<br><br>Os mai dim ond un **neu** ddau dendr sy'n dod i law, mae'n **rhaid** i chi gysylltu â'r Rheolwr Prosiect o Gyngor Sir |

[1] **Mae trothwyon caffael cyhoeddus y DU yn cael eu diweddaru bob dwy flynedd, ac mae newidiadau fel arfer yn dod i rym ar 1 Ionawr yn y flwyddyn ddiweddaru (fe'u diweddarwyd ddiwethaf ar 1 Ionawr 2024).**

[2] **Mae trothwyon caffael cyhoeddus y DU yn cael eu diweddaru bob dwy flynedd, ac mae newidiadau fel arfer yn dod i rym ar 1 Ionawr yn y flwyddyn ddiweddaru (fe'u diweddarwyd ddiwethaf ar 1 Ionawr 2024).**

| | | |
|---|---|---|
| | | Caerfyrddin (CSC) i roi'r manylion a chyfiawnhau'r broses gaffael a ddefnyddiwyd gennych. Bydd yn rhaid i CSC gymeradwyo'r penderfyniad i symud ymlaen i brynu fesul achos. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg y gellid ceisio mwy nag un tendr, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.<br>**Yn achos contractau gwaith sy'n werth mwy na £250k:**<br>• Mae'n rhaid, o leiaf, gynnal diwydrwydd dyladwy, megis gwiriadau Tŷ'r Cwmnïau, gwiriadau rhif TAW, gwiriadau gwefan ac ati, yn ogystal â gwiriadau ariannol ynghylch y contractwr a ffefrir yn dilyn y broses werthuso a chyn dyfarnu'r contract. |
| | | |
| **Nwyddau a Gwasanaethau** | **Mwy na £214,904** | Os yw contract am Nwyddau neu Wasanaethau yn debygol o fod **yn fwy na £214,904 (gan gynnwys TAW)** mae'n rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r rheolwr prosiect i gael gwybod a fydd Deddf Caffael 2023 yn berthnasol i'r contract. |
| **Gwaith** | **Mwy na £5,372,609** | Os yw contract am waith yn debygol o fod **yn fwy na £5,372,609 (gan gynnwys TAW)** mae'n rhaid i'r ymgeisydd gysylltu â'r rheolwr prosiect i gael gwybod a fydd Deddf Caffael 2023 yn berthnasol i'r contract. |
| **Gofynnir i ymgeiswyr 'Meddwl Sir Gâr yn Gyntaf' wrth geisio dyfynbrisiau ar gyfer prynu Nwyddau/Gwasanaethau a Gwaith. Felly, edrychwch ar y farchnad i weld a oes unrhyw fusnesau yn Sir Gaerfyrddin a all ddarparu'r nwyddau / gwasanaeth neu'r gwaith yr ydych yn ceisio eu prynu. Efallai y bydd gofyn i ymgeiswyr ddangos eu bod wedi ceisio dyfynbrisiau o'r fath.** | | |
| **Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau wedi'u nodi fel rhai arbenigol, a/neu lle mai dim ond un cwmni penodol sy'n addas ar gyfer y fanyleb a ddarperir, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cais ysgrifenedig i'r rheolwr prosiect cyn prynu i ofyn am hepgor y gofynion ar gyfer cystadleuaeth.** | | |
| **Cynghorir pob ymgeisydd i ddarllen y canllawiau ynghlwm.**<br>**Mae terminoleg a diffiniadau yn cael eu hesbonio isod.** | | |

## Canllawiau Pwysig

## Hysbysebu trwy Gwerthwchigymru

Os ydych mewn sefyllfa lle rydych yn ei chael hi'n anodd nodi'r nifer lleiaf o gyflenwyr sydd eu hangen a/neu os hoffech amrywio neu ddenu cyflenwyr newydd i gyflwyno dyfynbris neu dendr, mae'n bosibl i chi hysbysebu ar y wefan Gaffael Genedlaethol, sef www.GwerthwchiGymru.co.uk. Bernir mai hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru yw'r arfer gorau, ond efallai y byddai'n well gennych nodi cyflenwyr posibl a allai ddarparu'r cynnig gorau cyffredinol i chi.
Mae'r cyfleuster hwn ar gael i chi yn rhad ac am ddim, ewch i wefan GwerthwchiGymru www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/ a chysylltwch â llinell gymorth y wefan ar 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth.

## Yn Ceisio Dyfynbrisiau/Tendrau

Yn achos gwariant sy'n fwy na £10,000, mae'n hanfodol bod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu ceisio gan gyflenwyr priodol ar gyfer y nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau sydd eu hangen. Mewn amgylchiadau lle mae'n amlwg bod dyfynbrisiau/tendrau anaddas wedi'u ceisio, efallai y bydd yn ofynnol hysbysebu ar wefan GwerthwchiGymru.

## Diwydrwydd dyladwy

Fel rhan o'r broses asesu, mae'n ofynnol i chi gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ynghylch y cyflenwr/contractwr yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio i gyflawni'r grant. Pwrpas y gwiriadau hyn yw cadarnhau bod y cwmni yn un dilys. Mae'r gwiriadau hyn yn cynnwys - gwirio manylion y cwmni ar Dŷ'r Cwmnïau, gwirio bod y rhif TAW sydd wedi'i gynnwys yn y cais yn gywir ac yn cyd-fynd â manylion y cwmni. Efallai y byddai'n briodol gwirio gwefannau'r cwmni hefyd i weld ei bortffolio a'r math o waith a phrosiectau y mae'r cwmni hwnnw wedi'u gwneud o'r blaen. Mae hyn yn cynnig sicrwydd y byddai'n addas ar gyfer y prosiect arfaethedig.

## Osgoi Gwrthdaro Buddiannau

Rydym yn sylweddoli y gallai ymgeiswyr/datblygwyr, neu unigolion sy’n gysylltiedig â nhw (megis perthnasau, partneriaid busnes neu gyfeillion), ddymuno tendro am gontract sy’n cael ei gynnig gan yr ymgeisydd/datblygwr. Mae hynny’n dderbyniol ond bydd angen i’r ymgeisydd sicrhau bod y broses dendro yn cael ei chynnal mewn modd agored, a’i bod yn dryloyw a theg, fel yr amlinellir uchod, heb roi unrhyw fantais i un unigolyn neu gwmni dros un arall. Rhaid cymryd unrhyw fesurau perthnasol i atal, nodi ac unioni unrhyw wrthdaro buddiannau.
Os oes gan ymgeisydd / datblygwr neu unrhyw berson sy'n gysylltiedig â nhw'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fuddiant ariannol, economaidd, gwleidyddol neu bersonol arall y gellid ystyried ei fod yn peryglu ei ddidueddrwydd a'i annibyniaeth yng nghyswllt y weithdrefn gaffael:

- rhaid i'r ymgeisydd / datblygwr hwnnw, neu unrhyw berson neu barti arall sydd â buddiant ddatgan y buddiant hwnnw yn ysgrifenedig at y Swyddog Prosiect a fydd yn cynnig cyngor yn unol â hynny.
- mae'n rhaid sicrhau nad yw manylebau a meini prawf gwerthuso yn ffafrio nac wedi’u teilwra ar gyfer un datrysiad nac unrhyw un parti dros un arall.
- ni ddylai’r unigolyn neu barti sydd â buddiant gymryd unrhyw ran o gwbl yn y gweithdrefnau i werthuso’r tendrau er mwyn sicrhau bod y broses yn deg i bawb. Cydnabyddir y gallai fod yn ofynnol i Gyngor Sir Caerfyrddin roi'r gymeradwyaeth derfynol.
- mae'n rhaid cofnodi pob cam o'r weithdrefn yn ffurfiol.

Pwrpas y canllawiau hyn yw sicrhau bod yna degwch wrth wario arian cyhoeddus ac nad yw gonestrwydd yr ymgeisydd yn cael ei beryglu.

## Newidiadau i'r fanyleb neu'r contract

Os oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar ôl ceisio dyfynbrisiau/tendrau sy'n effeithio ar gwmpas gwreiddiol y gofyniad, bydd angen cynnal ymarfer caffael newydd i sicrhau'r gwerth gorau am arian. Gall hyn ddigwydd o ganlyniad i ychwanegiadau annisgwyl i'r gofyniad gwreiddiol, lle cyflwynir tendrau sy'n fwy na'r gyllideb sydd ar gael, lle mae lefelau cyllido yn newid ac ati. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd am grant hysbysu'r Swyddog Prosiect a fydd yn cynnig cyngor yn unol â

## Cynghorion ynghylch Tendro

| Pethau i'w gwneud | Pethau i beidio â'u gwneud |
|---|---|
| • **Gofalwch** fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei ddatgan ar y cyfle cyntaf posibl. | • **Peidiwch** â gogwyddo'r fanyleb er mwyn diystyru neu wahaniaethu yn erbyn cyflenwyr h.y. cyfyngu'r fanyleb i frand penodol. |
| • **Cydymffurfiwch** â'r rheolau priodol. | • **Peidiwch** â newid y fanyleb ar ôl iddi gael ei dosbarthu. |
| • **Gofalwch** fod y fanyleb yn fanwl-gywir a heb fod yn fwy na'r gofynion. | • **Peidiwch** â newid y meini prawf gwerthuso yn ystod y broses. |
| • **Gofalwch** fod y Meini Prawf Gwerthuso yn uniongyrchol berthnasol i bwnc y contract. | • **Peidiwch** â rhoi rhy ychydig o amser i gwmnïau gyflwyno dyfynbris. |
| • **Gofalwch** lenwi a chadw cofnodion llawn er gwybodaeth ar gyfer y dyfodol ac at ddibenion archwilio | • **Peidiwch** â chyfathrebu ar lafar **o gwbl** â chyflenwyr ynghylch cwestiynau penodol. Mae'n rhaid darparu'r un wybodaeth i'r holl gyflenwyr drwy e-bost i sicrhau bod y broses yn un deg a'i bod yn cael ei chofnodi. |
| • **Gofalwch** fod y dyfynbrisiau/tendrau yn cael eu gwerthuso ar sail 'tebyg am debyg'. | • **Peidiwch** â datgelu prisiau i gyflenwyr posibl. |
| • **Gofalwch** eich bod yn delio â chyflenwyr mewn modd agored, tryloyw a hynny heb wahaniaethu. | • **Peidiwch** â thorri'r rheolau ynghylch cyfrinachedd. |
| • **Cofiwch** ganiatáu digon o amser i gwmnïau gyflwyno eu dyfynbris | • **Peidiwch** ag agor dyfynbrisiau/tendrau cyn y dyddiad cau. |
| • **Gofalwch** fod gwerth y Nwyddau, y Gwaith neu'r Gwasanaeth yn cael ei amcangyfrif yn gywir ar ddechrau'r broses i ddefnyddio'r broses gaffael gywir. | • **Peidiwch** ag ystyried ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad cau. |

## Terminoleg a diffiniadau caffael

| Teitl | Disgrifiad |
|---|---|
| **Contract** | Ystyr Contract at ddibenion y Rheolau hyn fydd unrhyw gytundeb rhwng yr ymgeisydd am grant ac un neu fwy o bartïon eraill ar gyfer:<br>• gwerthu nwyddau neu ddeunyddiau.<br>• cyflenwi nwyddau neu ddeunyddiau.<br>• cyflawni gwaith |

| | |
|---|---|
| | • darparu gwasanaethau (gan gynnwys adeiladau a chyfleusterau). |
| **Nwyddau traul** | Nwyddau traul yw nwyddau defnyddwyr a ddefnyddir gan unigolion a busnesau y mae'n rhaid eu newid ar ôl eu defnyddio. Gall nwyddau traul fod yn eitemau bob dydd y mae'n rhaid eu newid yn gyson a'r rhai sy'n treulio dros gyfnodau hirach. Mae llawer o nwyddau traul yn fwy fforddiadwy na mathau eraill o nwyddau oherwydd eu bod wedi'u bwriadu i gael eu newid yn aml. Mae rhai nwyddau traul wedi'u cynllunio ar gyfer un defnydd yn unig ond gellir defnyddio eraill sawl gwaith. |
| **Ffynhonnell Gystadleuol** | Cyflenwr annibynnol yn gwneud cynnig yn erbyn darparwr annibynnol arall. |
| **Nwyddau** | Eitemau materol, h.y. offer, bwyd, cerbydau ac ati. |
| **Gwerthuso** | Dull o bennu pa ddyfynbris neu dendr yw'r gorau o ran darparu gwerth yr arian yn unol â'r meini prawf gwerthuso a bennwyd ymlaen llaw. Mae'r meini prawf hyn yn helpu i sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau yn deg, yn dryloyw, ac yn unol â'r amcanion. |
| **Meini Prawf Gwerthuso** | Rhestr o ofynion allweddol a ddefnyddir i asesu dyfynbrisiau neu dendrau sy'n dod i law o ffynonellau cystadleuol. Mae'r meini prawf a ddefnyddir i benderfynu pa dendr yw'r un mwyaf manteisiol yn seiliedig ar gyfuniad o feini prawf pris/cost ac ansawdd. |
| **Panel Gwerthuso** | Yr arfer gorau yw sefydlu panel gwerthuso i gynnal yr ymarfer gwerthuso. Fe all fod yn briodol cael panel traws-swyddogaethol. Dylai'r panel gytuno ar y fanyleb a'r meini prawf gwerthuso ymlaen llaw. Dylai'r panel weithredu'n gyson ym mhob cam o'r ymarfer caffael. |
| **Deddf Caffael 2023** | Mae Deddf Caffael 2023 yn fframwaith cyfreithiol sy'n llywodraethu sut mae sefydliadau'r sector cyhoeddus yn y DU yn prynu nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Ei nod yw sicrhau tegwch, tryloywder, a gwerth am arian wrth gefnogi cystadleuaeth ac arloesedd. |
| **GwerthwchiGymru** | Gwefan lle hysbysebir pob contract sector cyhoeddus. Gall Derbynwyr Grant Trydydd Parti hefyd hysbysebu trwy'r wefan, a hynny yn rhad ac am ddim, ewch i wefan GwerthwchiGymru www.gwerthwchigymru.llyw.cymru/ a chysylltwch â llinell gymorth y wefan ar 0800 222 9004 i gael rhagor o wybodaeth. |
| **Gwasanaethau** | tasgau a wneir gan bobl h.y. gwasanaethau ymgynghoriaeth, gwasanaethau cyfieithu ac ati. |
| **Manyleb** | Datganiad ysgrifenedig yw hwn sy'n diffinio'r gofynion. Bydd y fanyleb yn amrywio yn ôl y gwaith, y cynnyrch neu'r gwasanaeth dan sylw. Efallai mai disgrifiad byr fydd yn achos cynnyrch syml, ond yn achos gofyniad cymhleth, bydd yn ddogfen gynhwysfawr. Ni ddylai disgrifiad o'r nwyddau, y gwaith neu'r gwasanaethau gyfeirio at wneuthuriad, brand neu ffynhonnell benodol. |
| **Tendr/Dyfynbris** | Y ddogfen y bydd darpar gyflenwr yn ei llunio mewn ymateb i wahoddiad i gyflwyno dyfynbris/tendr. Mae'r ddogfen yn nodi gwybodaeth gyffredinol drwy arddangos gallu a chymhwyster y cyflenwr - gan gynnwys gwybodaeth fanwl am sut y mae'n bwriadu cyflawni manylebau'r gofyniad. |
| **Gwaith** | Mae'n cynnwys gwaith adeiladu, peirianneg sifil ac ati |